Meddwl mewn Dotiau a Llinellau

- **Yn datblygu creadigedd, ffordd weledol o feddwl, ffyrdd o weld, manylu**
- **Sesiwn ddechrau, egwyl, grŵp llawn, amser ymlacio**

Sut

Gall pethau syml fod yn eithaf cymhleth. Ai dot ydy dot neu ai pêl-droed morgrug ydy o? Ai llinell ydy llinell neu ai saeth heb ei gorffen ydy hi? Dyma gasgliad i chi bori drwyddyn nhw: (gallwch ychwanegu rhai chi'ch hun hefyd)

http://www.thinkingclassroom.co.uk/ShowThread.aspx?ID=462

Rhowch ddot at y bwrdd. Gofynnwch i'r disgyblion beth allai fod.
Rhowch linell ar y bwrdd. Gofynnwch i'r disgyblion beth allai fod.

Os oes angen hybu'r syniadau, chwiliwch am ddotiau a llinellau yn y mannau canlynol i ddechrau:

- ☐ **Y dosbarth**
- ☐ **Adeiladau**
- ☐ **Anifeiliaid**
- ☐ **Mapiau, diagramau a lluniau**

Mae awgrymiadau ar gyfer meddwl mewn dotiau a llinellau mewn gwahanol bynciau isod

Estyniad ar gyfer meddylwyr hŷn/profiadol

- **Cysylltwch ag emosiynau, cysyniadau haniaethol, gwerthoedd, nodweddion. Newidiwch ddimensiynau'r dot/llinell**
- **2 ddot? 2 linell? 1 dot/2 linell. Dotiau/llinellau o safbwynt….anifail/cadair etc.**

Gwaith symlach ar gyfer meddylwyr iau/sy'n datblygu

- Gofynnwch i blant ganfod llinellau a dotiau yn y dosbarth
- Defnyddiwch ddotiau a llinellau i wneud lluniau syml o bethau cyffredin

© 2008 Mike Fleetham. Free use granted on conditions: **Always acknowledge source and quote www.thinkingclassroom.co.uk**

Cymhwyswch Ddotiau a Llinellau i…

- **Mathemateg:** beth fyddai'n digwydd petai pob llinell syth yn diflannu? Pob dot yn diflannu?
- **Iaith:** Disgrifiwch ddot neu linell gyda cherdd/paragraff/haiku/brawddeg
- **Gwyddoniaeth:** Defnyddiwch ddotiau a llinellau i gynrychioli cemegau/prosesau/ deunyddiau
- **Daearyddiaeth:** Lle cewch chi ddotiau/llinellau mewn pethau naturiol a phethau a wnaed gan ddyn?
- **Hanes:** Gwnewch linell amser; gwnewch 'ddotiau amser' (maint/lleoliad y dot = math/amser y digwyddiad)
- **Cerdd:** Gwnewch sgôr graffig gyda dim ond dotiau a llinellau i gynrychioli seiniau
- **Celf:** Defnyddiwch ddim ond dotiau/dim ond llinellau/ dim ond dotiau a llinellau i greu darn o gelf
- **Addysg Gorfforol:** Defnydiwch ddotiau/llinellau i gynrychioli dilyniannau campfa/tactegau chwaraeon /dawnsfeydd
- **ABCh/AG:** Beth yw dot/llinell? Defnyddiwch ddotiau a llinellau i wneud emosiynau/eiconau emosiwn
- **D aTh:** Ysgrifennwch gyfarwyddiadau ar gyfer cynhyrchu dot/llinell.
- **L2L:** Defnyddiwch ddotiau a llinellau i ddisgrifio gwahanol fathau o ddysgu/gallu/sgiliau
- **ITM:** Cyfieithwch ddotiau a llinellau yn 10 iaith wahanol
- **Dysgu Awyr Agored:** Chwiliwch am linellau/dotiau y tu allan. Oes mwy y tu mewn na'r tu allan?
- **Rhieni:** Chwiliwch am ddotiau/llinellau wrth siopa/ymweld â rhywun/tripiau teulu
- **Busnes:** Dangoswch eich busnes fel dotiau a llinellau yn unig; dangoswch gynnyrch newydd a chynnyrch ar gyfer y dyfodol fel dotiau a llinellau yn unig; dangoswch eich marchnadoedd fel dotiau a llinellau yn unig (defnyddiwch faint bynnag sydd eu hangen arnoch - o wahanol hyd/trwch etc)

Nodiadau a

© 2008 Mike Fleetham. Free use granted on conditions: **Always acknowledge source and quote www.thinkingclassroom.co.uk**

Taflen i’w llungopïo

© 2008 Mike Fleetham. Free use granted on conditions: **Always acknowledge source and quote www.thinkingclassroom.co.uk**